

CYPE(6)-05-21 - Papur i'w nodi 3

**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**

**Economy, Trade and
Rural Affairs Committee**

Jeremy Miles MS,
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

18 Hydref 2021

Annwyl Jeremy,

Melinau traethodau

Ar 5 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth y DU [ddatganiad](#) yn nodi y byddai'n defnyddio'r Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 i wahardd 'melinau traethodau'. Mae'r datganiad yn nodi bod Llywodraeth y DU "intends to make it a criminal offence to provide, arrange or advertise these cheating services for financial gain to students taking a qualification at any institution in England providing post-16 education including universities".

Ar 18 Medi 2018, dywedodd Carwyn Jones, y Prif Weinidog bryd hynny, [wrth y Cyfarfod Llawn](#) fod "llên-ladrad wedi bod yn broblem mewn addysg uwch ers i addysg uwch fod yno, ond mae wedi gwaethygu", ac er ei fod yn credu bod melinau traethodau'n fater i brifysgolion ddelio ag ef yn y lle cyntaf, roedd yn agored i'r syniad o ddeddfwriaeth y DU gyfan i wahardd melinau traethodau gan nad oedd yn credu y byddai deddfwriaeth ar gyfer Cymru yn unig yn gweithio.

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod melinau traethodau yn hwyluso llên-ladrad a'u bod hefyd, yn aml, yn ecsbloetio myfyrwyr agored i niwed a gâi eu cefnogi'n well pe byddent yn ceisio cymorth gan eu prifysgolion.

Ar 13 Gorffennaf, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol (Memoranda) ar gyfer y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 a Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar (ARIA) at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o amser y Pwyllgorau, cytunais â Jayne Bryant AS mai ni a fyddai'n

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

arwain y gwaith craffu ar y Memorandwm ar gyfer y Bil ARIA ac mai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a fyddai'n arwain y gwaith craffu ar y Memorandwm ar gyfer y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16.

O ganlyniad, ni fydd Pwyllgor yr Economi yn cyhoeddi adroddiad ffurfiol ar y Memorandwm ar gyfer y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 hwn. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn annog Gweinidogion Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i ehangu'r gwaharddiad arfaethedig ar felinau traethodau yn Lloegr, sydd i fod i gael ei fewnosod yn y ddeddfwriaeth, fel ei fod hefyd yn cynnwys Cymru. Mae'r diwygiad hwn i'w weld yn ffordd hwylus o amddiffyn buddiannau myfyrwyr yng Nghymru, a byddai modd wedyn i'r Senedd graffu arno a'i gymeradwyo, gobeithio, o dan y weithdrefn cydsyniad deddfwriaethol a nodir yn Rheol Sefydlog 29.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Jayne Bryant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Mae'r Aelodau'n cytuno â'r farn a fynegwyd gan gyn-Brif Weinidog Cymru yn 2018, sef bod y mater hwn yn addas ar gyfer dull gweithredu ledled y DU, felly anfonir copi o'r llythyr hwn er gwybodaeth at Stephen Kerr ASA, Cynullydd y Pwyllgor Addysg, Plant a Phobl Ifanc yn Senedd yr Alban, a Chris Lyttle ACD, Cadeirydd y Pwyllgor Addysg yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon.

Yn gywir,



Paul Davies MS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.